CYMHARU BYWYDAU IFANC

TROSOLWG I'R ATHRO

Cyflwyniad

Mae'r adnodd byr hwn ar gyfer pobl ifanc 8 i 14 blwydd oed yn darparu cyfres o weithgareddau rhagbaratoawl difyr sy'n galluogi'r dysgwyr i archwilio mater anghydraddoldeb trwy fywydau pobl ifanc sy'n byw yn Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam.

Adnodd cynnig blas yw *Cymharu Bywydau Ifanc* sy'n seiliedig ar ddau o adnoddau presennol Oxfam sy'n cymharu bywydau pobl ifanc o amgylch y byd:

- Everyone Counts – adnodd mathemateg ar gyfer pobl ifanc 8 i 12 mlwydd oed.
- *Mwy neu Lai'n Gyfartal?* – set o adnoddau daearyddiaeth, mathemateg a Chymraeg ar gyfer pobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed.

Datblygwyd yr holl adnoddau hyn gan Oxfam ar y cyd â Bywydau Ifanc. Prosiect ymchwil rhyngwladol yw Bywydau Ifanc sy'n astudio achosion a chanlyniadau tlodi plant. Am fwy na 15 mlynedd, bu ymchwilwyr yn dilyn bywydau 12,000 o blant mewn pedair gwlad, sef Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam. I gael gwybod rhagor am brosiect Bywydau Ifanc, edrychwch ar y *Trosolwg i'r Athro* ym mhecynnau *Mae Pawb yn Cyfrif* a *Mwy neu Lai'n Gyfartal?* neu edrychwch ar: younglives.org.uk/

Thema waelodol *Cymharu Bywydau Ifanc* yw anghydraddoldeb, sy'n cyfeirio at wahaniaethau eang mewn poblogaeth o ran cyfoeth pobl, eu hincwm a'u mynediad at wasanaethau hanfodol fel iechyd ac addysg. Gall y gwahaniaethau hyn ddigwydd rhwng cymunedau yn yr un wlad, neu rhwng pobl sy'n byw mewn gwahanol wledydd. Gall anghydraddoldeb hefyd fod yn berthnasol i gyfleoedd (siawns mewn bywyd) a chanlyniadau anghyfartal.

Gwelir bellach fod y bwlch rhwng pobl gyfoethog a phobl dlawd yn tyfu'n gyflym mewn sawl gwlad o amgylch y byd. Mae saith o bob 10 o bobl y byd yn byw mewn gwledydd lle mae anghydraddoldeb economaidd wedi cynyddu yn y 30 mlynedd ddiwethaf. Petai holl gyfoeth y blaned yn cael ei rannu'n ddau, byddai un hanner yn mynd i'r un y cant mwyaf cyfoethog a'r hanner arall yn mynd i'r 99 y cant sy'n weddill o boblogaeth y byd.[1] Mae anghydraddoldeb yn broblem gynyddol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r pum teulu mwyaf cyfoethog yn y Deyrnas Unedig bellach yn fwy cyfoethog na'r 20 y cant isaf o'r boblogaeth (12.6 miliwn o bobl) gyda'i gilydd.[2] I gael rhagor o wybodaeth am anghydraddoldeb, darllenwch y *Nodiadau cefndir i athrawon* yn y pecynnau *Mae Pawb yn Cyfrif* a *Mwy neu Lai'n Gyfartal?*.

[1] *Working for the few: Political capture and economic inequality* (Ricardo Fuentes-Nieva a Nick Galasso, Oxfam Rhyngwladol, 2014) policy-practice.oxfam.org.uk/publications/working-for-the-few-political-capture-and-economic-inequality-311312

[2] *A Tale of Two Britains: Inequality in the UK* (Sarah Dransfield, Oxfam, 2014) policy-practice.oxfam.org.uk/publications/a-tale-of-two-britains-inequality-in-the-uk-314152

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Nodau *Cymharu Bywydau Ifanc*

- Defnyddio astudiaethau achos a data o fywyd go iawn i ymgysylltu â'r dysgwyr a'u galluogi i weld perthnasedd ymarferol daearyddiaeth, astudiaethau cymdeithasol (yr Alban), mathemateg a Chymraeg yn y byd o'u cwmpas.
- Annog dulliau addysgu a dysgu cyfranogol, ymchwiliol a chydweithredol.
- Annog meddwl yn feirniadol am faterion a gwerthoedd.

Strwythur

Rhennir *Cymharu Bywydau Ifanc* yn dair sesiwn, gydag awgrymiadau am weithgareddau mewn tri maes pwnc. Rydym wedi ceisio cadw'r sesiynau mor hyblyg â phosibl Gallech benderfynu hepgor rhai gweithgareddau yn dibynnu ar faint o amser sydd ar gael ac ar wybodaeth, dealltwriaeth ac anghenion presennol eich dysgwyr. Gallai fod yn briodol i wasgaru'r gweithgareddau mewn rhai sesiynau dros fwy nag un wers. Ym mhob sesiwn, darperir gweithgareddau wedi'u gwahaniaethu ar gyfer dysgwyr iau a hŷn, ynghyd â syniadau i gefnogi trafodaeth a dysgu pellach.

Mae pob sesiwn yn dechrau â throsolwg sy'n cynnwys amcanion dysgu, deilliannau dysgu, cwestiynau allweddol a chysylltiadau â'r cwricwlwm. Darperir amseroedd bras ar gyfer y gweithgareddau a awgrymir ond nid yw'r rhain yn cynnwys yr amser a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer mewnbwn addysgu ychwanegol ynghylch rhai o'r cysyniadau. Dyluniwyd yr holl sesiynau i gynnig hyblygrwydd o ran eu defnyddio ac felly, gallai cyfanswm yr amser a gymerir i gwblhau'r holl weithgareddau amrywio. Nid oes gweithgareddau cychwynnol na sesiynau llawn wedi'u cynnwys gan y tybir y bydd athrawon am gynllunio'r rhain yn unigol. Mae'r holl daflenni adnoddau a gweithgareddau wedi'u cynnwys yn y trosolwg o'r sesiwn. Darperir sioe sleidiau hefyd i'w defnyddio gyda'r tair sesiwn.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB/Bywydau Ifanc

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam a Bywydau Ifanc. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Amlinelliad manwl o'r adnoddau

Teitl y sesiwn	Amcanion Dysgu	Deilliannau Dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Daearyddiaeth: *Darlunio gwledydd*	• Gallu lleoli pedair gwlad Bywydau Ifanc a'r Deyrnas Unedig ar fap o'r byd, ynghyd â'r gwledydd a'r cyrff dŵr sy'n ffinio â nhw. • Cyfleu gwybodaeth bresennol am bedair gwlad Bywydau Ifanc. • Deall sut y mae rhagdybiaethau a thybiaethau'n gallu dylanwadu ar ein syniadau ynghylch pa fath o le yw rhywle.	• Bydd y dysgwyr yn lleoli pedair gwlad Bywydau Ifanc a'r Deyrnas Unedig ar fap o'r byd, ynghyd â'r gwledydd a'r cyrff dŵr sy'n ffinio â nhw. • Bydd y dysgwyr yn nodi eu gwybodaeth bresennol am y gwledydd hyn ynghyd â beth arall yr hoffent ei wybod. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio ffotograffau i archwilio eu gwybodaeth a'u tybiaethau presennol am y gwledydd hyn.	• Beth yr ydych eisoes yn ei wybod am y gwledydd hyn? Beth yr hoffech ei wybod? • Yn eich barn chi, sut beth yw bywyd yn y gwledydd hyn? • Ble, yn eich barn chi, y tynnwyd y ffotograff hwn? • Pa dystiolaeth sy'n sail i'ch syniadau neu eich tybiaethau? • A ydych chi'n meddwl bod tybiaethau pobl ynghylch pa fath o le yw rhywle yn gywir bob amser?	• Gweithgaredd 1: *Ble yn y byd?* • Gweithgaredd 2: *Herio tybiaethau*	• Sioe Sleidiau: sleidiau 2-7 • Taflenni adnoddau: *1) – 5) Cipluniau Gwlad: A, B, C, D* ac *E* *6) – 7) Cipluniau Gwlad: nodiadau cyfeirio 1 a 2* • Taflen Gweithgaredd: *1) Ble yn y byd?*
Mathemateg: *Trin Data*	• Gwybod rhai ffyrdd o fesur llesiant mewn modd meintiol. • Dehongli data, eu cynrychioli a'u disgrifio mewn gwahanol ffyrdd. • Deall bod canran (%) yn ymwneud â 'nifer y rhannau fesul cant'.	• Bydd y dysgwyr yn dehongli set o ddata sy'n mesur llesiant. • Bydd y dysgwyr yn gofyn ac yn ateb cwestiynau, ac yn cynhyrchu datganiadau am set o ddata. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio ffeithluniau i gynrychioli data canrannau.	• Sut y gallwn fesur llesiant? • Beth y mae'r data hyn yn ei ddweud wrthym? • Pa gwestiynau y gallem eu gofyn am y data hyn? Beth fyddai'r atebion? • Pam y gallai pobl fod am gynrychioli neu ddisgrifio data mewn ffyrdd gwahanol?	• Gweithgaredd 1: *Mesur Llesiant* • Gweithgaredd 2: *Darlunio data* • Gweithgaredd 3: *Disgrifio mewn ffordd wahanol*	• Sioe Sleidiau: sleidiau 2–5, 8-16 • Taflenni adnoddau: *1) Mesur llesiant* *2) Disgrifio mewn ffordd wahanol (Datganiadau wedi'u cwblhau)* • Taflenni gweithgareddau: *1) Pa un yw pa un?* *2) Dangos y data* 3) *Disgrifio mewn ffordd wahanol*
Cymraeg: *Croeso i fy mywyd*	• Actio rôl a datblygu empathi at eraill. • Gallu trafod syniadau gydag eraill mewn grŵp. • Defnyddio ffynonellau ysgrifenedig i ddatblygu gwybodaeth ehangach am fywydau pobl ifanc ym mhedair gwlad Bywydau Ifanc.	• Bydd y dysgwyr yn dadansoddi testun ysgrifenedig er mwyn nodi a chasglu gwybodaeth am fywydau rhai pobl ifanc yng ngwledydd Bywydau Ifanc. • Bydd y dysgwyr yn actio rôl un o'r bobl ifanc sy'n cael sylw. • Bydd y dysgwyr yn trafod eu syniadau ag eraill. • Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu rhestr o'r nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau rhwng bywyd un o'r bobl ifanc sy'n cael sylw a'u bywydau eu hunain.	• Beth yr ydych chi'n ei wybod am y person ifanc hwn? Sut fywyd sydd ganddo/ganddi, yn eich barn chi? • A ydych chi'n meddwl bod bywydau'r holl bobl ifanc yn y gwledydd hyn yr un fath? Pam/Pam ddim? • Pa nodweddion tebyg a gwahaniaethau sydd rhwng bywyd y person ifanc hwn a'ch bywyd chi eich hun? • A allwch chi feddwl am resymau dros y nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau hyn?	• Gweithgaredd 1: *Croeso i fy mywyd* • Gweithgaredd 2: *Cyf-weld â Bywydau Ifanc* • Gweithgaredd 3: *Nodweddion tebyg a gwahaniaethau*	• Sioe Sleidiau: sleidiau 2–5, 17-21 • Taflenni adnoddau: *1) – 4) Croeso i fy mywyd: Salman a Harika (India); Luz a Manuel (Periw)* • *Taflenni gweithgareddau:* *1) Cwestiynau'r cyfweliad* *2) Nodweddion tebyg a gwahaniaethau*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Cymharu Bywydau Ifanc – Trosolwg i'r Athro

OXFAM